# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(via MS Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 13 Rhagfyr 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | S.Pursey, A.J.Richards, S.K.Hunt, A.J.Taylor, S.Renkes a/ac L.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran, C.Owen a/ac A.Thomas |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cofnod 5, Paragraff 7
Dileu'r frawddeg "Ar ôl ystyried y cynigion, roedd yr Aelodau'n cefnogi'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad."

**Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021 fel cofnod gwir a chywir gyda'r diwygiad uchod**

## 3. ADRODDIAD POLISI TGCH YR AELODAU

Aeth Craig Griffiths drwy'r adroddiad. Mae'n nodi dau wahanol strwythur o wybodaeth. Yn gyntaf, mae'n nodi'r offer TG a gaiff ei ddarparu i aelodau fel rhan o'r broses sefydlu yn 2022. Yn ail, mae'r adroddiad yn ymdrin â'r defnydd o'r eitemau a ddarperir i Aelodau.

Holodd yr Aelodau a yw anableddau'n cael eu hystyried o fewn y math o offer a ddarperir i'r aelodau. Cadarnhawyd y bydd Aelodau'n cymryd rhan mewn proses sgrinio cydraddoldeb yn Sesiwn Sefydlu'r flwyddyn nesaf lle caiff anghenion unigol yr Aelodau eu hystyried. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion unigol yr Aelodau'n cael eu hystyried ac nad oes rhwystr i unrhyw gyfranogiad ym mhrosesau'r cyngor.

Holodd yr Aelodau a yw'r polisi fel y'i cyflwynir yn atal Aelodau rhag cael mynediad at e-byst y cyngor etc. ar eu gliniaduron personol eu hunain. Ar ben hynny roedd pryder ynghylch defnyddio rhaglenni 'Office'. Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r fersiwn gyfredol o Outlook sy'n cael ei defnyddio'n cefnogi ei defnydd ar ddyfeisiau allanol gan nad yw'n darparu'r diogelwch angenrheidiol. Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd er mwyn gweld a ellir diweddaru'r rhaglenni i wneud hyn. Nodwyd y gellir adolygu a diweddaru'r polisïau yn ôl yr angen er mwyn ystyried unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd yr Aelodau Bolisi TGCh diwygiedig yr Aelodau (gan gynnwys Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd) gan ei gymeradwyo i'r cyngor i'w gadarnhau.

## 4. **E-DDEISEBAU**

Aeth Craig Griffiths drwy'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod llawer o'r cynnwys o fewn y polisi yn cael ei bennu gan ddeddfwriaeth. Mae gan aelodau hyblygrwydd o ran y trothwy ar gyfer yr hyn sy'n sbarduno rhywbeth sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod o'r cyngor. Mae paragraff 4.10 yn nodi cyfres sylfaenol o ffigurau, fodd bynnag mae'n agored i'w newid. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar yr hyn y mae awdurdodau eraill wedi seilio eu ffigurau arno ac mae hyn wedi'i gydbwyso yn erbyn y boblogaeth.

Bydd cynllun e-ddeiseb yn cael ei roi ar y wefan, a gaiff ei gysylltu â mod.gov. Aeth Mr Griffiths drwy'r weithdrefn i sefydlu deiseb. Holodd yr Aelodau, o fewn y cromfachau nodweddiadol arbennig, ynghylch beth gallai fod yn enghraifft o fath o ddeiseb y gellir ei hystyried. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r polisi yw'r arweiniad cyfreithiol ac mae wedi nodi gofynion cyfreithiol y cynllun deisebu. Os cytunir ar y polisi, dywedodd swyddogion y bydd dogfennau hawdd eu defnyddio'n cael eu drafftio i eistedd ochr yn ochr â'r dogfennau cyfreithiol.

Pan ofynnir am ddeiseb, rhaid iddi ymwneud yn y pen draw â swyddogaethau'r cyngor, neu fod yn rhywbeth y mae gan y cyngor reolaeth drosto.
Holodd yr Aelodau pa mor eang y caiff ei ystyried mewn perthynas â lle mae gan y cyngor "rywfaint o ddylanwad" a phwy fydd yn gyfrifol yn y pen draw am ddehongli'r elfen hon o'r polisi. Cadarnhaodd swyddogion y byddai llawer yn dibynnu ar eiriad y ddeiseb ei hun. Er enghraifft, pe bai'r ddeiseb yn gofyn i'r cyngor ymateb yn uniongyrchol i eitem sydd y tu allan i'w gylch gwaith, ni fyddai hyn yn cael ei ystyried, fodd bynnag, pe deisyfir ar y cyngor i ysgrifennu at y prif gorff cyfrifol a gofyn iddynt ystyried mater y byddai hyn o fewn rhodd y cyngor i'w ystyried. Byddai cyfle i fynd yn ôl at y sawl sy'n cyflwyno'r cais am ddeiseb ac egluro'r gwahaniaeth iddo lle y bo'n briodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai unrhyw drefniadau sy'n ymwneud â'r eitem hon yn cychwyn ar ddechrau'r weinyddiaeth newydd yn 2022.

Ystyriodd yr Aelodau'r llofnodion ar y deisebau a sut yr ymdrinnir â'r rhain. Cadarnhaodd swyddogion y bydd y person sy'n dechrau'r ddeiseb yn cael ei wirio orau ag y mae'n bosib, ond bydd swyddogion yn defnyddio'u barn orau a'r gwybodaeth sydd ar gael iddynt i benderfynu a yw'r llofnodwyr yn cyd-fynd â chanllawiau'r polisi.

Cadarnhaodd swyddogion y bydd deisebau a gohebiaeth o dan 100 o lofnodion yn cael eu hystyried yn yr un ffordd. Fodd bynnag, gall aelodau o'r cyhoedd fod yn hyderus y byddant yn cael ymateb hyd yn oed os nad yw'n bodloni'r trothwy i'w ystyried mewn cyfarfod o'r cyngor.

Cododd yr Aelodau ymholiadau ynglŷn â pharhad y ddeiseb. Mae'r elfen hon yn eithaf amwys o fewn y polisi a mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch deisebau sydd ar agor am amser hir. Nodwyd bod trefnydd y ddeiseb, o fewn y polisi, sy'n penderfynu ar faint o amser y mae ar agor. Cytunodd swyddogion fod angen ystyried amserlen briodol o fewn y polisi i sicrhau bod eitemau'n parhau'n berthnasol.
Holodd yr Aelodau sut y bydd y ddeiseb a drefnir yn cael ei diweddaru gyda chynnydd yr eitem drwy'r cyngor. Cytunodd swyddogion y gellid ychwanegu hyn at y polisi fel y byddai'r person yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y ddeiseb drwy'r cyngor, oni bai ei fod yn nodi'n groes i hyn.

Cytunodd yr Aelodau i ychwanegu Deisebau at y Blaenraglen Waith fel eitem sefydlog.

**Penderfynwyd ar y canlynol: Argymhellir, gan roi sylw dyladwy i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig:**

**(a) Fod aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried Cynllun Deisebau drafft Castell-nedd Port Talbot gan argymell unrhyw newidiadau sy'n briodol yn eu barn hwy; a**

**(b) Y rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gytuno ar y drafft terfynol i'w gymeradwyo i'r cyngor ar ran Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.**

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-22**

Nodi'r Blaenraglen Waith.

6. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**